Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

South Wales Fire and Rescue Service

**Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau**
**Ymarferydd yr Uned Troseddau Tân**
**Rhif y Swydd: 502250**
**Gradd 9 – (£33,366 - £35,235)**

Mae cyfle cyffrous wedi codi o fewn yr adran Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau a leolir ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Llantrisant, CF72 8LX.

Fel Ymarferydd Uned Troseddau Tân bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus ysgogiad i weithio'n rhagweithiol ar y cyd â phartneriaid mewnol ac allanol ill dau i helpu lleihau nifer yr achosion o Losgi Bwriadol ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a chynorthwyo dioddefwyr cam-drin domestig a thrais (trwy fygythiadau llosgi bwriadol) o fewn ardal GTADC.

Achos natur y rôl, rhaid i ymgeiswyr allu teithio'n annibynnol rhwng safleoedd ledled De Cymru, darperir cludiant i'ch galluogi i gyflawni eich dyletswyddau swyddogol.

Mae'r meini prawf hanfodol i'w hystyried ar gyfer y rôl yn cynnwys gallu cryf i ddatrys problemau, profiad o weithio gyda phobl sy'n agored i niwed yn y gymuned, gallu gweithio gydag asiantaethau partner yn ogystal â'r gallu i weithio mewn cydymffurfiaeth lwyr â pholisïau sefydliadol.

Bydd Gwiriad manylach gan Y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd a Gwiriad gan yr Heddlu yn cael eu cynnal cyn penodi.

---

Gellir canfod mwy o fanylion am y swydd hon yn y Swydd-Ddisgrifiad a'r Fanyleb Person y gellir eu lawr lwytho ynghyd â'r Ffurflen Gais o dudalen Swyddi Gwag Diweddaraf ein gwefanwww.decymru-tan.gov.uk

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â Rheolwr Gorsaf UTT, James Davies drwy law e-bost ar jj-davies@decymru-tan.gov.uk

Dylid dychwelyd Ffurflenni Cais gorffenedig at: Y Tîm Recriwtio ac Asesu, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX neu drwy law e-bost at personel@decymru-tan.gov.uk

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn Ffurflenni Cais yw 07.02.2025. Bydd y Rhestr fer a'r Cyfweliadau yn dilyn yn fuan wedyn ac i'w cadarnhau.**

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni naill ai yn Saesneg neu yn Gymraeg. Ni chaiff ffurflenni cais a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.